

Polisi Gorfodi a Chosbau Cyfoeth Naturiol Cymru

1. Cyflwyniad

Dogfen polisi gorfodi a chosbau Cyfoeth Naturiol Cymru yw hon.

Mae'n amlinellu'r egwyddorion cyffredinol y byddwn yn eu dilyn mewn perthynas â gorfodi a chosbi.

Mae'r polisi hwn ond yn berthnasol i Gymru ac mae'n disodli pob dogfen polisi gorfodi flaenorol.

2. Ein hegwyddorion rheoliadol

Rydym yn defnyddio ein hegwyddorion rheoliadol i lywio ein dull rheoleiddiol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac o gyflenwi canlyniadau llesiant.

2.1 Gweithredu mewn modd cymesur

Mae rhai digwyddiadau neu achosion o dorri gofynion rheoliadol yn achosi, neu â'r potensial i achosi, difrod amgylcheddol difrifol. Gall eraill ymwneud â tharfu ar fwynhad neu hawliau pobl, neu ein gallu i gyflawni ein gweithgareddau. Ein hymateb cyntaf fydd atal niwed i bobl a'r amgylchedd rhag digwydd neu barhau. Bydd unrhyw gamau gorfodi a gymerwn yn gymesur â'r risg a berir i bobl a'r amgylchedd Byddwn hefyd yn ystyried difrifoldeb yr achos o dorri'r gyfraith a'i effaith ar fusnesau cyfreithlon.

2.2 Bod yn gyson

Ein nod yw dilyn dull tebyg mewn amgylchiadau tebyg, o ran y canlynol:

- y cyngor rydym yn ei roi
- sut rydym yn ymateb i lygredd a digwyddiadau eraill
- sut rydym yn defnyddio pwerau
- sut rydym yn penderfynu p'un a fyddwn yn erlyn
- pa sancsiwn allai fod yn briodol

Bydd ein swyddogion yn ystyried llawer o newidynnau fel a ganlyn:

- graddfa'r effaith amgylcheddol
- ymagwedd a chamau gweithredu unigolion a rheolwyr busnesau
- hanes digwyddiadau neu achosion o fynd yn groes i ofynion yn flaenorol

Mae penderfyniadau ar gamau gorfodi'n fater o grebwyll proffesiynol ac mae angen i'n swyddogion allu arfer disgrisiwn.

2.3 Bod yn dryloyw

Byddwn yn parhau i hyfforddi ein staff ac i ddatblygu ein gweithdrefnau er mwyn sicrhau'r canlynol:

pan fo angen camau gweithredu adferol, ein bod yn esbonio'n glir pam mae angen camau gweithredu ac erbyn pryd y mae'n rhaid eu gweithredu, gan wahaniaethu rhwng cyngor ar arferion gorau a gofynion cyfreithiol

ein bod yn rhoi'r cyfle i drafod yr hyn sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r gyfraith cyn y caiff unrhyw gamau gorfodi ffurfiol eu cymryd, oni bai fod angen cymryd camau brys, er enghraifft er mwyn diogelu'r amgylchedd neu i atal tystiolaeth rhag cael ei dinistrio

pan fo'n ofynnol gennym fod gweithredwr yn cymryd camau gweithredu brys, byddwn yn rhoi esboniad ysgrifenedig o'r rhesymau dros hyn cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl y digwyddiad

byddwn yn rhoi esboniad ysgrifenedig o unrhyw hawliau apelio yn erbyn camau gorfodi ffurfiol ar adeg cymryd y camau gweithredu

2.4 Camau gorfodi a dargedir

Byddwn yn blaenoriaethu ein hymdrech reoliadol tuag at weithgarwch sydd â'r potensial i achosi difrod amgylcheddol difrifol. Byddwn yn canolbwyntio camau gweithredu ar y sawl sy'n torri'r gyfraith neu'r rheiny sy'n gyfrifol yn uniongyrchol am y risg a/neu'r sawl sydd yn y sefyllfa orau i'w rheoli.

2.5 Bod yn atebol

Byddwn yn cymryd cyfrifoldeb dros ein penderfyniadau, a byddwn yn eu cyfiawnhau lle bo hynny'n briodol. Mae ein gwaith papur ar gyfer hysbysiadau, gorfodi a chosbi yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am sut i apelio a chwyno. Byddwn yn ymgynghori pan fyddwn yn newid ein polisi gorfodi.

Byddwn yn cefnogi adolygiadau cyfnodol gan Lywodraeth Cymru o'n gweithgareddau rheoliadol a gorfodi. Byddwn hefyd yn adrodd ar ein gweithgareddau gorfodi a chosbi, yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

2.6 Rhoi sylw i gyfrifoldebau ehangach

Mae ein dull o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau, y newid yn yr hinsawdd, a chosbau sifil mercwri (fel yr amlinellir yn Atodiadau 1 i

3) yn ystyried ein dull o gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Rydym hefyd o'r farn ei fod yn rhoi sylw i brif ddarpariaethau Deddf Dadreoleiddio 2015 ac i ddymunoldeb hybu twf economaidd. Yn benodol, ni fyddwn yn caniatáu i weithredwyr gyflawni twf economaidd ar draul gwarchod pobl a'r amgylchedd. Byddwn yn sicrhau bod ein camau gorfodi'n cefnogi busnesau cyfreithlon, yn hytrach na'u rhwystro.

3. Dull o orfodi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

Gallwn ddefnyddio'r sancsiynau sydd ar gael i ni i gyflawni canlyniadau amgylcheddol. Gellir rhannu'r canlyniadau rydym yn eu ceisio yn dri math cyffredinol fel a ganlyn:

3.1 Offerynnau i roi terfyn ar droseddu

Hysbysiadau

Hysbysiad stop

Hysbysiad gwahardd

Hysbysiad i wahardd gweithgaredd dŵr daear

Hysbysiad gwaith gwrthlygredd

3.2 Offerynnau i adfer neu leihau effeithiau

Hysbysiad adfer

Hysbysiad gorfodi

Hysbysiad i gael gwared ar wastraff

Hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol ailstocio coedwigoedd

Hysbysiad gwaith gwrthlygredd

3.3 Offerynnau i atal a/neu gosbi

Sancsiynau troseddol

Cosbau ariannol amrywiadwy, cosbau ariannol penodedig

Cosbau sifil ychwanegol ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE, Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon, a chosbau sifil mercwri

4. Egwyddorion cosbau gorfodi a sancsiynau

Pan ydym yn ystyried y cam gweithredu priodol i fynd i'r afael â throseddu a sicrhau cydymffurfiaeth, byddwn yn dilyn yr egwyddorion cosb a amlinellir yn Adolygiad Macrory ac sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Rheoleiddwyr.

5. Opsiynau gorfodi

Golyga gorfodi unrhyw gamau gweithredu rydym yn eu cymryd lle rydym yn amau bod trosedd wedi digwydd neu, mewn rhai achosion, ar fin digwydd. Gall hyn amrywio o roi cyngor ac arweiniad, cyflwyno hysbysiadau hyd at erlyn, neu unrhyw gyfuniad sy'n cyflawni'r canlyniad a ddymunir orau.

Mewn rhai achosion, dan Reoliadau Difrod Amgylcheddol 2009, efallai y bydd angen cymryd camau gorfodi yn absenoldeb unrhyw drosedd a ddrwgdybir, ond, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gweithgaredd sy'n arwain at 'ddifrod amgylcheddol' o dan y rheoliadau hefyd yn cael ei ystyried yn drosedd o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol.

O fewn y dull cyffredinol hwn, byddwn yn ystyried sut olwg sydd ar ymateb cymesur i'r drosedd, a gall hynny fod ar ffurf cyngor ac arweiniad, ond, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gall olygu erlyniad. Pan gyflawnwyd trosedd, byddwn fel arfer yn ystyried rhoi rhyw fath o sancsiwn ynghyd â chymryd camau ataliol neu adferol eraill sydd eu hangen er mwyn gwarchod yr amgylchedd neu bobl. Ein nod yw defnyddio sancsiynau sifil a throseddol mewn ffordd sy'n briodol i'r drosedd.

Mae'r opsiynau sydd ar gael i ni'n cynnwys y canlynol:

- darparu cyngor ac arweiniad
- rhoi rhybudd
- hysbysiadau gorfodi statudol a hysbysiadau gwaith
- hysbysiadau gwahardd
- atal neu ddiddymu trwyddedau amgylcheddol, neu amrywio amodau trwyddedau
- gwaharddebau
- gwneud gwaith adferol
- sancsiynau sifil
- sancsiynau sifil ac ariannol eraill, gan gynnwys hysbysiadau cosb benodedig
- cyflwyno rhybuddiad ffurfiol
- erlyniad a gorchmynion ategol i erlyniad
- defnyddio sancsiynau ar y cyd

Ceir rhestr gyflawn o bob trosedd ac enghraifft o fynd yn groes i ofynion rydym yn eu rheoleiddio, a'r camau gorfodi sydd ar gael i ni, yn y ddogfen Opsiynau ar gyfer Ymateb i Drosedd.

5.1 Ymyriadau

5.1.1 Cyngor ac arweiniad – cymorth cydymffurfiaeth

Ein nod yw darparu cyngor ac arweiniad i gynorthwyo gweithredwr neu unigolyn i ddychwelyd i gydymffurfiaeth ar unrhyw bwynt. Yn achos ymateb gorfodi, byddwn fel arfer yn rhoi cyngor ac arweiniad ar ôl i drosedd gael ei chyflawni neu pan ydym o'r farn fod trosedd yn debygol o gael ei chyflawni. Pan ydym yn darparu cymorth cydymffurfiaeth o'r math hwn, caiff ei roi heb ragfarn i unrhyw ymateb gorfodi arall y gall fod yn ofynnol. Gall y cymorth cydymffurfiaeth hwn fod ar lafar neu ar ffurf ysgrifenedig, ond caiff ei gofnodi. Os digwydd achos(ion) parhaus o beidio â chydymffurfio, gallai hynny ddylanwadu ar y dewis dilynol o blith yr ymatebion.

Byddwn hefyd yn ceisio, pan fo hynny'n bosibl, i gyrraedd datrysiad parhaus i'r broblem a achosodd i droseddau gael eu cyflawni.

5.1.2 Rhybuddion

Mae rhybudd yn hysbysiad ysgrifenedig o'r ffaith ein bod o'r farn bod trosedd wedi'i chyflawni. Gall yr hysbysiad fod ar ffurf y canlynol:

- llythyr rhybuddio
- hysbysiad safle, a gyflwynir ar y safle fel arfer, neu, fel arall, o ganlyniad i ymweliad cydymffurfiaeth â safle neu weithgaredd trwyddedig

Os digwydd achosion pellach o beidio â chydymffurfio, gall cyflwyno rhybudd ddylanwadu ar y dewis dilynol o blith y sancsiynau.

Gellir defnyddio rhybuddion i gyflawni unrhyw un o'r pedwar canlyniad amgylcheddol y gallwn eu ceisio.

5.1.3 Hysbysiadau, pwerau a gorchmynion

Mae llawer o'r trefniadau rydym yn eu gorfodi eisoes yn cynnwys pwerau i gyflwyno hysbysiadau penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd roi'r gorau i droseddu, adfer neu leihau'r effaith ar yr amgylchedd dan sylw, neu gydymffurfio â gofynion rheoliadol. Gellir defnyddio'r darpariaethau hyn sydd eisoes yn bodoli lle bynnag y bo'n briodol.

Mae enghreifftiau o'r hysbysiadau, pwerau a gorchmynion hyn yn cynnwys y canlynol:

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010

Hysbysiadau: hysbysiad amrywio (Rheoliad 20), hysbysiad gorfodi (Rheoliad 36), hysbysiad gwahardd (Rheoliad 37), hysbysiad dirymu (Rheoliad 22), hysbysiad i wahardd gweithgaredd dŵr daear (Atodlen 22, paragraff 9)

Gorchmyn llys: gorfodaeth gan yr Uchel Lys (Rheoliad 42)

Pwerau adfer: y pŵer i atal llygredd neu adfer ar ei ôl, ac adennill costau (Rheoliad 57), y pŵer i gael gwarded ar wastraff ymbelydrol (Atodlen 23, Rhan 3, paragraff 4), ffynonellau amddifad (Atodlen 23, Rhan 4, paragraff 8)

Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Hysbysiad i waredu gwastraff (Adran 59 a 59Z)

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Gorchymyn llys: adfer difrod i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o ganlyniad i waith heb gydsyniad

Deddf Coedwigaeth 1967 fel y'i diwygiwyd

Hysbysiadau: hysbysiad ailstocio (Adran 17A) a hysbysiad gorfodi (Adran 24)

Mae Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008 wedi creu pwerau hysbysu newydd i atgyfnerthu'r hysbysiadau sy'n bodoli eisoes, yn enwedig o ran darparu pwerau sy'n ei gwneud yn ofynnol i droseddwr roi'r gorau i'r gweithgaredd anghyfreithlon, sicrhau bod y gweithgaredd yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol, ac adfer y difrod a wnaed. Mae'r hysbysiadau hyn, sef hysbysiadau stop, cydymffurfiaeth ac adfer, ar gael er mwyn mynd i'r afael â sefyllfaoedd nad oes modd ymdrin â nhw drwy'r hysbysiadau a ddisgrifir yn y paragraff uchod.

5.2 Cosbau sifil ar gyfer cynlluniau'r newid yn yr hinsawdd

Mae rhai cynlluniau yn rhoi cosbau sifil penodol ar gyfer troseddau penodol.

Yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r DU, mewn perthynas â gosodiadau sefydlog a gweithgareddau hedfan, mae'r ddeddfwriaeth yn amlinellu cosbau sifil ar ffurf cosbau ariannol.

Yng Nghynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon, mae'r ddeddfwriaeth yn amlinellu cosbau sifil amrywiol ar ffurf cosbau ariannol, cyhoeddi achosion sy'n mynd yn groes i ofynion, pennu ffigur allyriadau blynyddol, gofyniad i ildio lwfansau ychwanegol, gosod y sawl neu sefydliad sy'n troseddu ar waelod tablau cynghrair perfformiad, a rhwystro cyfrif ar y gofrestrfa.

Yn y ddau gynllun uchod, mae lefel y gosb ariannol wedi'i hamlinellu yn y ddeddfwriaeth, yn gyffredinol. Yn achos cosbau penodol, mae cyflwyno'r gosb yn orfodol. O safbwynt cosbau eraill, rhoddir pŵer i hepgor neu addasu'r gosb, ond dim ond yn unol â'r disgrisiwn cyfyngedig a amlinellir yn y ddeddfwriaeth.

Mewn perthynas â'r cynllun lwfansau tirlenwi, mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol adrodd achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth a drwgdybir i Weinidog Cymru.

5.3 Sanctsiynau sifil y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau

Gallwn ddewis cyflwyno sanctsiwn sifil o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau er mwyn cyflawni'r canlyniad neu ganlyniadau rydym am eu cael.

Nid yw sancsiynau sifil y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau ar gael ar gyfer pob trosedd. Ceir rhestr gyflawn o bob trosedd ac enghraifft o fynd yn groes i ofynion rydym yn eu rheoleiddio, a'r camau gorfodi sydd ar gael i ni, yn y ddogfen Opsiynau ar gyfer Ymateb i Drosedd.

5.3.1 Cosbau ariannol penodedig

Mae'r rhain yn gosbau penodedig a fydd fwyaf addas ar gyfer troseddau sy'n cael effaith amgylcheddol fach, neu effaith amgylcheddol nad yw'n uniongyrchol, megis troseddau sy'n ymwneud â gwaith papur a gweinyddiaeth. Byddant fwyaf priodol mewn achosion pan fo cyngor ac arweiniad wedi methu â sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. Mae cosbau ariannol penodedig wedi'u gosod o £300 ar gyfer busnesau a £100 ar gyfer unigolion, a rhoddir disgowntiau am dalu'n gynnar. Gellir eu defnyddio ar gyfer troseddau pan fo cosb ariannol ar lefel isel yn fwy tebygol o newid ymddygiad y troseddwr ac annog cydymffurfiaeth yn y dyfodol, er enghraifft oherwydd bod cyngor ac arweiniad wedi methu. Gellir eu defnyddio ar gyfer troseddau bach sy'n gofyn am gymryd rhyw fath o gamau gorfodi, ond nad ydynt yn ddigon difrifol o bosib, gan ddibynnu ar ffactorau buddiant cyhoeddus, i gyfiawnhau erlyniad.

5.3.2 Cosbau ariannol amrywiadwy

Mae'r rhain yn gosbau ariannol y gallwn eu cyflwyno'n uniongyrchol ar gyfer troseddau mwy difrifol. Byddwn yn dilyn y fethodoleg gyhoeddedig (gweler Atodiad 1) er mwyn gosod lefel y gosb ariannol newidiol. Gellir defnyddio cosbau ariannol amrywiadwy yn lle sancsiynau troseddol yn achos troseddau y mae'n bosibl y gall cyflwyno cosb ariannol newid ymddygiad y troseddwr ac atal eraill a/neu arwain at ddatrysiad cyflymach. Nid yw stigma euogfarn droseddol yn perthyn i gosb ariannol amrywiadwy. Gall hefyd fod yn fodd i'r derbynnydd arbed arian drwy osgoi'r angen i dalu am gynrychiolaeth gyfreithiol, a'i gwneud yn bosibl iddo gynnig ymgymeriad trydydd parti i dalu iawndal i drydydd partion y cafwyd effaith negyddol arnynt, gan gynnwys cymunedau lleol.

Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, achosion pan fu difrod amgylcheddol mwy sylweddol, ond mae ffactorau eraill yn awgrymu y gallai fod yn fwy priodol cyflwyno cosb ariannol amrywiadwy. Caiff cosbau ariannol amrywiadwy eu defnyddio hefyd, pan fo hynny'n briodol, i ddileu enillion neu arbedion ariannol adnabyddadwy yn sgil yr achos o beidio â chydymffurfio. Mae'n bosibl y byddwn yn dewis defnyddio cosbau ariannol amrywiadwy pan geir tystiolaeth o esgeulustod a chamreoli.

5.3.3 Hysbysiadau cydymffurfio

Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr ddychwelyd i gydymffurfiaeth. Gellir eu defnyddio mewn achos pan fo troseddwr wedi cydymffurfio â gofyniad yn flaenorol, fel cyflwyno ffurflenni'n rheolaidd, ond pan nad yw'n cyflawni ei rwymedigaethau ar hyn o bryd. Dylai'r hysbysiad sicrhau bod y troseddwr yn cymryd camau i ddod â'r diffyg cydymffurfiaeth i ben, yn mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol, ac yn cydymffurfio eto. Gellir eu defnyddio pan na chafodd cyngor neu arweiniad blaenorol i annog cydymffurfiaeth ei ddilyn, gan arwain at yr angen i gyflwyno hysbysiad ffurfiol i sicrhau cydymffurfiaeth. Gellir eu cyfuno â chosb ariannol amrywiadwy a hysbysiad adfer.

5.3.4 Hysbysiadau adfer

Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr gymryd camau i wneud iawn am unrhyw ddifrod a achoswyd o ganlyniad i beidio â chydymffurfio ac i fynd i'r afael ag unrhyw niwed. Gellir defnyddio'r hysbysiadau hyn pan achoswyd difrod i'r amgylchedd, a phan ellir nodi'r camau gweithredu a'r gwaith sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r difrod a phan all y troseddwr eu cyflawni. Gellir eu defnyddio mewn achosion pan nad yw gwaith adfer wedi cael ei wneud yn wirfoddol, neu pan ydym o'r farn bod angen cyflwyno hysbysiad ffurfiol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni. Gellir eu defnyddio pan nad oes unrhyw hysbysiad addas arall ar gael a phan na chafodd cyngor neu arweiniad blaenorol i annog gwaith adfer ei ddilyn. Gellir eu cyfuno â chosb ariannol amrywiadwy a hysbysiad cydymffurfio.

5.3.5 Hysbysiadau stop

Gellir defnyddio hysbysiad stop mewn dwy sefyllfa:

- er mwyn atal ar unwaith weithgaredd sy'n achosi, neu'n peri risg sylweddol o achosi, niwed difrifol i iechyd pobl neu'r amgylchedd, a phan fo trosedd benodedig wrthi'n cael ei chyflawni, neu'n debygol o gael ei chyflawni
- er mwyn atal ar unwaith weithgaredd sy'n debygol o gael ei barhau a fydd yn achosi, neu a fydd yn peri risg sylweddol o achosi, niwed difrifol i iechyd pobl neu'r amgylchedd, a bod y gweithgaredd sy'n debygol o barhau yn golygu bod trosedd benodedig yn cael ei chyflawni, neu y bydd yn debygol o olygu bod trosedd yn cael ei chyflawni

5.3.6 Ymgymeriadau gorfodi

Mae'r rhain yn gytundebau gwirfoddol sy'n rhwymol yn gyfreithiol a gynigir gan y bobl hynny a all fod wedi cyflawni trosedd ac a dderbynnir gennym. Gellir derbyn ymgymeriad gorfodi gan unigolyn pan fo gennym sail resymol i amau bod trosedd benodedig wedi cael ei chyflawni. Ni chânt eu derbyn oni bai fod gennym hyder digonol y caiff telerau'r ymgymeriad gorfodi eu cyflawni. Rydym yn fwy tebygol o'u derbyn pan gânt eu cynnig yn gynnar. Byddwn yn annhebygol o dderbyn ymgymeriad gorfodi pan ydym eisoes wedi penderfynu bod angen erlyn mewn achos penodol. I'r un graddau, ni fyddwn yn debygol o dderbyn ymgymeriad gorfodi pan ydym eisoes yn cynnal trafodaethau ar lefel cosb ariannol amrywiadwy mewn achos penodol. Bydd telerau ymgymeriad gorfodi fel arfer yn cynnwys elfen o waith adfer ynghyd â chymau gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth yn y dyfodol, megis buddsoddiad hirdymor mewn systemau rheoli amgylcheddol. Dylai ymgymeriadau gorfodi annog gweithredwyr busnes cyfreithlon i wneud iawn, cydymffurfio eto, ac atal yr un peth rhag digwydd yn y dyfodol.

Gweler Atodiad 2 am fwy o wybodaeth ynglŷn ag ymgymeriadau gorfodi a'r ddogfen Opsiynau ar gyfer Ymateb i Drosedd i weld y troseddau y gallant gael eu cymhwysu iddynt.

5.3.7 Hysbysiadau adennill costau gorfodi

Mae'n bosibl y byddwn yn cyflwyno hysbysiadau adennill costau gorfodi sy'n ei gwneud yn ofynnol talu ein costau hyd at amser cyflwyno'r rhan fwyaf o sancsiynau sifil. Byddwn bob amser yn ceisio adennill ein costau yn unol â'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', a byddwn yn ceisio asesu ein costau gwirioneddol ac angenrheidiol mewn perthynas â chyflwyno'r sancsiwn ac yn adennill y rhain o'r troseddwr perthnasol.

Ni ellir cyflwyno hysbysiad adennill costau pan gyflwynwyd cosb ariannol benodedig, oherwydd nid yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu hynny. Pan gynigir ymgymeriad gorfodi, nid oes gennym yr hawl i'w gwneud yn ofynnol talu ein costau, ond byddwn yn rhoi sylw mwy ffafriol i ymgymeriadau gorfodi sy'n cynnig cyfraniad tuag at y costau sy'n gysylltiedig â throedd honedig, a phan fo'r troseddwr yn derbyn y bydd yn cyflawni'r ymgymeriad hyd at ei derfyn o dan dystysgrif gwblhau.

Er y gallwn leihau swm cosb sifil oherwydd anallu troseddwr i dalu'r swm dyledus, rydym yn annhebygol o leihau swm hysbysiad adennill costau gorfodi. Mae hyn oherwydd y dylai'r hysbysiad adennill costau gorfodi adlewyrchu'r costau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â'r troseddu a'r gosb a gyflwynwyd, ac oherwydd ein dyletswydd i warchod arian cyhoeddus.

Ceir hawl i apelio yn erbyn cyflwyno hysbysiad adennill costau gorfodi yn unol â'r hyn a ddarperir ar ei chyfer yn yr offerynnau statudol perthnasol.

5.3.8 Hysbysiadau cosb am ddiffyg cydymffurfio

Mae gennym yr hawl i gyflwyno hysbysiad cosb am ddiffyg cydymffurfio pan fo troseddwr yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu ymgymeriad trydydd parti. Mae hyn yn wir hyd yn oed pan gyflwynir cosb ariannol amrywiadwy hefyd ar gyfer trosedd berthnasol. Byddwn yn ceisio asesu'r gost wirioneddol o gydymffurfio â'r sancsiwn neu ymgymeriad trydydd parti gwreiddiol, a bydd ein cosb am ddiffyg cydymffurfio yn seiliedig ar y gost asesedig hon. Byddwn wedyn yn ystyried y rhesymau dros beidio â chydymffurfio wrth asesu pa gyfran neu ganran o'r gost honno y dylid ei chyflwyno fel cosb am ddiffyg cydymffurfio. Mae'r ganran yn debygol o fod yn uwch mewn achosion o fethu â chydymffurfio yn fwriadol. Bydd y ganran yn is os yw'r methiant i gydymffurfio o ganlyniad i ffeithiau ac amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y troseddwr. Oherwydd ei bod yn debygol y bydd methiant o'r fath yn ddibynnol ar ffeithiau penodol, byddwn yn cymhwyso meini prawf budd y cyhoedd i benderfynu pa ganran taliad sy'n briodol ei chodi fel cosb am ddiffyg cydymffurfio.

Yn achos hysbysiadau cydymffurfio a hysbysiadau adfer, gallwn erlyn achosion o beidio â chydymffurfio â hysbysiad neu gyflwyno cosb am ddiffyg cydymffurfio. O dan amgylchiadau arferol, byddem yn dewis naill ai cyflwyno cosb am ddiffyg cydymffurfio neu erlyn, gan ddibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos o beidio â chydymffurfio. Pan gyflwynir cosb am ddiffyg cydymffurfio, ond nad yw'n arwain at gydymffurfiaeth â'r hysbysiad gwreiddiol, mae'n bosibl y byddwn yn erlyn y troseddwr am y drosedd wreiddiol o hyd.

Os cydymffurfir â gofynion y sancsiwn neu ymgymeriad trydydd parti gwreiddiol cyn yr amser a bennir ar gyfer talu'r gosb am ddiffyg cydymffurfio, caiff y gosb ei dileu. Byddem yn rhoi sylw i ddymunoldeb lleihau swm cosb am ddiffyg cydymffurfio pe bai ei chyflwyno'n arwain at gynigion prydlon a chynhwysfawr ar gyfer cydymffurfio â thelerau'r hysbysiad gwreiddiol.

Mae offerynnau statudol perthnasol y sancsiynau sifil yng Nghymru a Lloegr yn rhoi'r hawl i apelio yn erbyn cyflwyno cosb am ddiffyg cydymffurfio.

5.4 Achosion troseddol

Os ydym yn penderfynu erlyn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- arfer annibyniaeth erlyn
- sicrhau bod unrhyw achos a gyflwynir ar gyfer ei erlyn yn bodloni Cod Erlynwyr y Goron

5.4.1 Annibyniaeth erlyn wrth wneud penderfyniadau

Er mwyn sicrhau proses gwneud penderfyniadau deg, caiff y penderfyniad i erlyn ei wneud yn annibynnol o'r ymchwilydd. Mae hyn yn enwedig o bwysig o fewn CNC, oherwydd bod yr erlynydd yn gweithio i'r un sefydliad â'r ymchwilydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae ein pŵer i erlyn wedi'i nodi yn y gyfraith, a chaiff ei reoli gan ein bwrdd. Pan ydym yn penderfynu erlyn, nid yw adran o'r llywodraeth, gweinidog nac unrhyw drydydd parti yn cael dylanwad arnom. Mae'n benderfyniad annibynnol.

Mae'r bwrdd yn dirprwyo awdurdod i gychwyn achos neu gyflwyno rhybuddiad, o dan y Cynllun Dirprwyo Statudol a Chyfreithiol, i gymeradwyaeth ar y cyd gan uwch-reolwr gweithredol ac uwch-gyfreithiwr. Mae gan y ddwy rôl hyn linellau rheolaeth gwahanol.

Rhaid i'r gymeradwyaeth fod yn seiliedig ar y canlynol:

- penderfyniad gan uwch-reolwr gweithredol bod cyfiawnhad dros erlyn neu gyflwyno rhybuddiad o ganlyniad i'r ymchwiliad
- adolygiad o ffeil yr achos gan uwch-gyfreithiwr, a phenderfyniad ganddo fod yr erlyniad neu'r rhybuddiad arfaethedig yn bodloni'r prawf a bennir yng Nghod Erlynwyr y Goron

Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn goruchwyllo sut y caiff pob achos erlyniad ei arwain, ac mae gan ein cyfreithwyr y pŵer i ddod ag achos i derfyn nad yw mwyach er budd y cyhoedd ei erlyn. Mae'r rôl hon yn annibynnol o reolaeth linell weithredol.

5.4.2 Hysbysiadau cosb benodedig

Mae hysbysiad cosb benodedig yn gosb ariannol ar gyfer trosedd a gyflwynir gan y rheoleiddiwr, ac os na chaiff ei thalu, gellir ymdrin â hynny drwy erlyniad yn y llysoedd

troseddol. Mae hysbysiadau cosb penodedig ar gael i ni ar gyfer nifer gyfyngedig o droseddau. Pan gyflwynir hysbysiad cosb benodedig, bydd talu'r gosb yn clirio'r rhwymedigaeth. Pan fo hyn yn digwydd, caiff cofnod o daliad yr hysbysiad cosb benodedig ei gadw, a chaiff ei drin yn yr un ffordd â chofnod sy'n deillio o rybudd. Pan fyddwn yn cyflwyno hysbysiad cosb benodedig nad yw'r derbynnydd yn ei dalu, caiff y sawl hwnnw ei erlyn am y drosedd wreiddiol fel arfer.

5.4.3 Rhybuddiad ffurfiol

Mae rhybuddiad ffurfiol yn dderbyniad ysgrifenedig gan droseddwr ei fod wedi cyflawni trosedd, a gellir ond ei ddefnyddio pan ellid fod wedi dwyn erlyniad yn briodol. I'r graddau hyn, mae'n wahanol i rybudd ffurfiol fel y disgrifir uchod, sy'n gofnod a rhybudd syml am drosedd sydd wedi'i chyflawni, neu a allai gael ei chyflawni. Mae'r rhybuddiad ffurfiol yn sancsiwn troseddol ffurfiol a gofnodir a gaiff ei gyflwyno mewn llys os ceir achosion pellach o droseddu. Mae'n wahanol i gyflwyno sancsiwn sifil oherwydd yr ystyriwyd bod yr amgylchiadau a arweiniodd at y drosedd yn briodol ar gyfer erlyniad, ac, yn wir, byddai ailadrodd achosion tebyg o droseddu yn debygol o arwain at ymateb o'r fath.

Bwriedir i rybuddiadau ffurfiol fod yn ataliad penodol i droseddwr, ac maent yn addas ar gyfer achosion pan ellid cychwyn erlyniad ond mae ffactorau eraill yn lliniaru yn erbyn hynny. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ystyried y prawf o dan God Erlynwyr y Goron, sef p'un a oes tystiolaeth ddigonol, a hefyd ffactorau buddiant cyhoeddus sy'n berthnasol.

Mewn achosion pan na dderbynnir rhybuddiad ffurfiol, byddwn fel arfer yn erlyn y drosedd wreiddiol.

5.4.4 Erlyn

Mae'r sancsiwn erlyn ar gael ar gyfer pob trosedd yn ôl y gyfraith. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n pennu darpariaethau cosbau yn rhoi cryn le i'r llysoedd gosbi troseddwr ac atal eraill. Mewn rhai achosion, gellir dedfrydu unigolion i garchar a chyflwyno dirwyon diderfyn.

Pan fyddwn yn penderfynu bod sancsiwn troseddol yn briodol, byddwn yn asesu'r achos yn unol â gofynion Cod Erlynwyr y Goron cyn cychwyn erlyniad.

Rydym yn cydnabod bod erlyn yn fater difrifol na ddylid ymgymryd ag ef heb ystyried y goblygiadau a'r canlyniadau yn llawn. Mewn achosion pan benderfynir mai erlyn yw'r dewis mwyaf priodol o blith y sancsiynau, rhaid i ni fodloni'r prawf a bennir yng Nghod Erlynwyr y Goron er mwyn penderfynu a oes tystiolaeth ddigonol i roi posibilrwydd realistig o gyflawni euogfarn. Ym mhob achos pan geir tystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau erlyniad neu i gynnig penderfyniad y tu allan i'r llys, rhaid i erlynwyr barhau i ystyried a yw'n ofynnol erlyn er budd y cyhoedd.

Rhaid i ni benderfynu wedyn a yw erlyniad yn ymateb priodol neu a allai opsiwn amgen i erlyn fod yn fwy priodol. Amlinellir manylion pellach am y ffactorau a fydd yn dylanwadu ar yr asesiad hwn yn adran 3 o ddogfen ganllaw DEFRA/Llywodraeth Cymru ar sancsiynau sifil ar gyfer troseddau amgylcheddol.

5.4.5 Gorchmynion a orfodir gan y llys yn ategol i'r erlyniad

Byddwn bob amser yn ystyried p'un a ddylid gwneud cais am iawndal neu orchmynion ategol eraill. Isod, ceir rhestr o'r gorchmynion ategol y gall llys eu rhoi o ganlyniad i euogfarn:

- anghymhwysu cyfarwyddwyr
- atafaelu asedau – Deddf Enillion Troseddau 2002
- gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol
- fforffedu cyfarpar a ddefnyddiwyd i gyflawni'r drosedd
- gwaharddiadau rhag gyrru
- iawndal
- atafaelu cerbydau
- adfer – o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn ystyried cymhwysedd unigolyn i fod yn ddeiliad ar drwyddedau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, neu ba mor ddymunol ydyw bod unigolyn yn parhau i fod yn gludwr neu'n frocer gwastraff cofrestredig.

5.4.6 Camau gweithredu eraill y gallwn eu cymryd o ganlyniad i euogfarn

Os caiff deiliad trwydded amgylcheddol ei ddyfarnu'n euog, gallwn adolygu ac ailystyried ei gymhwysedd i ddal y drwydded honno. Gallwn roi amser iddo brofi ei gymhwysedd neu atal neu ddiddymu ei drwydded.

6. Sut rydym yn gwneud penderfyniadau gorfodi

Pan ydym yn ystyried ein hymateb i drosedd, bydd amrediad o ymatebion cosbi posibl ar gael i ni eu defnyddio fel arfer. Nid yw sanctsiynau sifil o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau ar gael ar gyfer pob trosedd, a, lle y bônt ar gael, ni ellir cymhwyso pob un o'r sanctsiynau sifil. Yn yr un modd, nid yw hysbysiadau, pwerau a gorchmynion na chônt eu darparu o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau ar gael ar gyfer pob trosedd. Ceir rhestr o'r holl sanctsiynau sydd ar gael ar gyfer pob trosedd yn ein dogfen Opsiynau ar gyfer Ymateb i Drosedd.

Pan fyddwn yn ystyried pa sanctsiwn i'w ddewis, byddwn hefyd yn ystyried a oes datganiad safbwynt rheoleiddio wedi'i gyhoeddi ar gyfer y drosedd honno.

Mae'r llywodraeth wedi darparu cyngor i ni y byddwn yn ei ddilyn, mewn dogfen o'r enw 'Civil penalties under the CRC Energy Efficiency Scheme Order 2010', ar gyflwyno cosbau sifil a defnyddio'n disgrisiwn o dan Gynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon.

7.1 Ffactorau buddiant cyhoeddus

Gall pwysigrwydd pob ffactor buddiant cyhoeddus amrywio fesul achos. Nid yw penderfynu budd y cyhoedd yn fater syml o adio nifer y ffactorau sydd o blaid ac yn erbyn cyflwyno sancsiwn. Byddwn yn penderfynu pa mor bwysig yw pob ffactor yn amgylchiadau pob achos a dod i farn gyffredinol.

Bydd ystyried y ffactorau hyn fel arfer yn rhoi syniad o'r sancsiwn neu sancsiynau priodol sy'n debygol o arwain at y canlyniad a ddymunir. Gall y canlyniadau hyn gynnwys cydymffurfiaeth barhaus â'r gyfraith, iawndal am achosi niwed amgylcheddol, a chael buddiant da a pharhaus ar gyfer yr amgylchedd a chymunedau y cafwyd effaith arnynt, a sicrhau chwarae teg ar gyfer busnesau ac eraill.

7.1.1 Bwriad

Mae troseddau a gyflawnir yn fwriadol, yn ddi-hid neu drwy esgeulustod dybryd yn fwy tebygol o arwain at erlyniad. Mae achosion pan gyflawnwyd trosedd o ganlyniad i ddamwain neu gamgymeriad gwirioneddol yn fwy tebygol o arwain at ddefnyddio cyngor ac arweiniad, rhybudd, neu sancsiwn sifil sydd ar gael.

7.1.2 Y graddau y gellir rhagweld amgylchiadau

Fel rheol, bydd yr ymateb i achosion pan ellid fod wedi rhagweld yn rhesymol yr amgylchiadau a arweiniodd at y drosedd, a phan na chafodd mesurau i osgoi a/neu atal y drosedd rhag digwydd, yn golygu cyflwyno sancsiwn y tu hwnt i gyngor ac arweiniad neu roi rhybudd.

7.1.3 Effaith amgylcheddol

Bydd yr ymateb yn mynd i'r afael â'r niwed posibl a gwirioneddol i bobl a'r amgylchedd. Fel rheol, pan gaiff trosedd ei dosbarthu'n ddigwyddiad Uchel-Difrifol/Sylweddol o dan y Canllawiau ar Gategoriâu Digwyddiadau, neu'n achos Categori 1 neu 2 o dan y Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth (neu gategori cyfwerth o dan y Cynllun Categori 1 Risgiau Argaeau Cronfeydd Dŵr), byddem yn ystyried erlyn, neu gyflwyno rhybuddiad ffurfiol neu gosb ariannol amrywiadwy. Mae rhai troseddau o fath sydd wedi'i gynllunio i atal niwed amgylcheddol, er enghraifft troseddau tynnu dŵr penodol. Pan allai trosedd o'r fath arwain at ddigwyddiad Categori 1 neu 2 o dan y Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth, neu ddigwyddiad Uchel-Difrifol/Sylweddol, byddem fel arfer yn ystyried erlyn, neu gyflwyno rhybuddiad ffurfiol neu gosb ariannol amrywiadwy.

7.1.4 Natur y drosedd neu'r achos o fynd yn groes i ofynion

Byddwn fel arfer yn erlyn mewn achosion pan fo'r drosedd yn cael effaith ar ein gallu i fod yn rheoleiddiwr effeithlon ac effeithiol, er enghraifft pan gaiff ein staff eu rhwystro rhag cyflawni eu dyletswyddau, pan ydym yn targedu math penodol o droseddu, neu pan ddarperir gwytodaeth anwir neu gamarweiniol i ni.

7.1.5 Goblygiadau ariannol

Mewn achosion pan godir prisiau llai na busnesau cyfreithlon, neu pan wneir elw neu osgoir talu costau, megis costau a arbedir drwy beidio â chael trwydded, bydd hyn fel arfer yn arwain at gyflwyno cosb ariannol amrywiadwy neu gychwyn erlyniad. Bydd hyn yn cynnwys troseddau a ysgogir gan enillion ariannol.

7.1.6 Effaith ataliol

Pan fyddwn yn dewis sancsiwn, byddwn yn ystyried yr effaith ataliol, o safbwynt y troseddwr ac eraill. Gall erlyniadau fod yn briodol, mewn achosion annifrifol o beidio â chydymffurfio hyd yn oed, pan allant gyfrannu at lefel atal uwch yn gyffredinol, a hynny oherwydd bod stigma mwy yn perthyn iddynt os sicheir euogfarn. Mewn achosion pan fo defnyddio sancsiwn yn debygol o leihau hunanadroddiadau am achosion o droseddu neu o beidio â chydymffurfio, mae'n bosibl y bydd sancsiwn gwahanol yn briodol.

7.1.7 Hanes blaenorol ac ad-droseddu

Ystyrir graddau'r troseddu a/neu'r achosion o beidio â chydymffurfio (gan gynnwys troseddu sy'n benodol i safle neu fethiannau cyffredinol gan y troseddwr). Fel rheol, byddwn yn uwchgyfeirio ein hymateb gorfodi mewn achosion pan nad yw sancsiynau blaenorol wedi cyflawni'r canlyniad a ddymunir. Er enghraifft, pan ddefnyddiwyd rhybuddiad ffurfiol i ymdrin â throseddu yn flaenorol, ond ei fod wedi methu ag annog newid mewn ymddygiad ac atal ad-droseddu, mae'n debygol y caiff y troseddwr ei erlyn, neu caiff cosb ariannol amrywiadwy ei chyflwyno pan fo'r opsiwn hwnnw ar gael.

7.1.8 Ymagwedd

Pan fo ymagwedd troseddwr tuag at y drosedd yn wael a/neu ei fod yn gwrthod cydweithredu â'r ymchwiliad neu waith adfer, bydd hyn fel arfer yn golygu y byddwn yn ystyried erlyn neu gyflwyno cosb ariannol amrywiadwy. I'r gwrthwyneb, pan fo'r troseddwr yn rhoi manylion am drosedd o'i wirfodd neu drwy fecanwaith hunanadrodd i ni, byddwn yn ystyried hyn wrth benderfynu ar sancsiwn neu wrth benderfynu a fydd rhoi cyngor ac arweiniad yn ddigon.

7.1.9 Amgylchiadau personol

Byddwn yn ystyried amgylchiadau personol y troseddwr (er enghraifft, os yw'r troseddwr yn dioddef o salwch difrifol). Fel arfer, ni fydd trosedd gyntaf gan unigolyn ifanc yn arwain at erlyniad.

Pan ydym yn ystyried sancsiwn sy'n cynnwys cosb ariannol neu ofyniad i wneud gwaith adfer drudfawr, byddwn yn rhoi sylw gofalus i allu'r unigolyn i dalu. Pan fo'r ystyriaeth honno'n awgrymu bod y gosb y tu hwnt i allu'r unigolyn i'w thalu, caiff ei haddasu fel ei bod o fewn cyrraedd y troseddwr.

Ni fyddwn fel arfer yn cyflwyno cosb ariannol benodedig neu gosb ariannol amrywiadwy i drosedd (heblaw achosion pan geir enillion ariannol sylweddol) pan fydd unigolyn yn

derbyn taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) – y disgwylir iddynt gael eu lleihau oherwydd bod yr unigolyn wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion traws-gydymffurfiaeth perthnasol – ond mae'n bosibl y byddwn yn cyflwyno sancsiynau sifil troseddol eraill o hyd.

7.2 Y ffyrdd posibl y byddwn yn ymdrin â sefyllfaoedd penodol

7.2.1 Troseddau difrifol

Fel rheol, byddwn yn dewis erlyn pan ydym yn ymdrin â throseddolrwydd amlwg, esgeulustod dybryd neu ymddygiad di-hid, neu pan fo difrifoldeb y drosedd yn ei gwneud yn ofynnol ei chlywed mewn fforwm cyhoeddus.

Byddwn fel arfer yn ystyried erlyn, yn amodol ar ystyried ffactorau buddiant cyhoeddus, yn achos unrhyw un o'r canlynol:

- cyflawnwyd y drosedd yn fwriadol, yn ddi-hid neu drwy esgeulustod dybryd, neu mae gweithgarwch troseddol plaen ynghlwm wrthi
- mae'r drosedd wedi achosi niwed difrifol i'r amgylchedd neu i bobl (neu mae posibilrwydd iddi achosi niwed o'r fath)
- bu achos estynedig, ac ar raddfa fawr, o fethu â chydymffurfio â darpariaethau rheoliadol
- bu aelodau o'n staff yn destun aflonyddu, dychryn, gofid neu ofn trais
- gwnaed datganiad neu gofnod anwir neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n ddi-hid
- cawsom ein rhwystro rhag cyflawni ein dyletswyddau, ac mae'r rhwystr hwn wedi atal yr ymchwiliad i weithgarwch a all fod yn droseddol, neu pan fo troseddwr wedi dynwared un o swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru
- mae troseddwr wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad stop

7.2.2 Achosion bach o fynd yn groes i ofynion

Pan ydym yn ymdrin ag achosion bach o fynd yn groes i amod trwydded a phan nad oes effaith amgylcheddol, byddwn, fel rheol, yn dewis rhoi cyngor ac arweiniad i helpu'r busnes i gydymffurfio eto.

7.2.3 Ad-droseddu

Mewn achosion pan fo'r troseddu wedi parhau neu fod ad-droseddu wedi digwydd er i ni gymryd camau gorfodi, byddwn fel arfer yn cynyddu lefel ein hymateb gorfodi ac yn cyflwyno sancsiwn mwy difrifol neu lym.

7.2.4 Methiant i gydymffurfio â hysbysiad

Pan fo derbynnydd yn methu â chydymffurfio â hysbysiad, byddwn yn ceisio sanctsiwn sy'n debygol o gosbi a/neu atal.

7.2.5 Gweithredu heb drwydded neu awdurdodiad arall

Mewn achosion pan fo'r unigolyn wedi methu â chael yr awdurdodiad angenrheidiol, rydym yn fwy tebygol o gyflwyno sanctsiwn sy'n debygol o gosbi a/neu atal.

7.2.6 Gweithrediadau niferus

Byddwn bob amser yn rhoi sylw i hanes cydymffurfio troseddwr. Ni fyddwn fel arfer yn ystyried troseddau a gyflawnwyd ar un o safleoedd eraill gweithredwr oni bai eu bod o fath tebyg neu'n arddangos methiant mewn rheolaeth yn gyffredinol ar ran y gweithredwr.

7.2.7 Corff corfforedig

Byddwn yn cymryd camau gorfodi yn erbyn yr unigolion hynny sy'n gyfrifol am y drosedd. Yn achos cwmni, yn ôl yr arfer, cymerir camau gorfodi yn erbyn cwmni pan ddeilliodd y drosedd o'i weithgareddau. Fodd bynnag, mewn achosion pan gyflawnwyd trosedd gan gorff corfforedig a'i bod yn bosibl ei phriodoli i gydsyniad, ymoddefiad neu esgeulustod unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall, gall yr unigolyn hwnnw fod yn euog o gyflawni trosedd ac mae'n debyg y bydd yn destun camau gorfodi ar gyfer y drosedd honno.

Mewn amgylchiadau o'r fath, byddwn yn cymryd camau gweithredu yn erbyn y corff mwyaf priodol (corfforedig a/neu unigolyn) neu ar y cyd, gan ddefnyddio'r amrediad llawn o offerynnau gorfodi sydd ar gael i ni. Mewn achosion priodol, byddwn yn ystyried ceisio anghymhwyso cyfarwyddwyr o dan y Ddeddf Cwmnïau.

7.2.8 Pobl ifanc

Ni fyddwn fel arfer yn erlyn trosedd gyntaf unigolyn ifanc.

7.2.9 Pryd y gallwn gyfuno sanctsiynau a throeddau

Ar wahân i achosion a ganiateir gan y ddeddfwriaeth yn benodol, nid yw fel arfer yn bosibl cyfuno sanctsiynau troseddol a sifil ar gyfer yr un math o droseddu.

Bydd cyfuniadau o sanctsiynau'n bosibl mewn rhai amgylchiadau, ond rhaid rhoi sylw gofalus i'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol. Er enghraifft, mae Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008 yn ein galluogi i gyflwyno cosbau ariannol amrywiadwy, a hysbysiadau adfer a chydymffurfio ar gyfer yr un drosedd.

Pan fydd yn ymddangos ei bod yn ddymunol defnyddio cyfuniad o sanctsiynau, byddwn yn ystyried yn ofalus y graddau y mae hyn yn gyfreithlon a phriodol.

Yn achos trefniadau sy'n cynnwys cofrestriad a chydymffurfiaeth flynyddol, fel y rheiny a sefydlwyd gan rwymedigaethau cyfrifoldeb cynhyrchwyr, pan fyddwn yn dewis ymateb o blith sancsiynau sifil, byddwn yn ymdrechu i adlewyrchu pob methiant i gydymffurfio drwy ddewis un sancsiwn sifil, sy'n nodweddu'r troseddau dan sylw yn y ffordd fwyaf teg, yn hytrach na chyflwyno nifer o sancsiynau ar gyfer pob cyfnod cydymffurfio.

8. Cyfrifoldeb am gamau gorfodi

8.1 Penderfynu ar atebolrwydd

Er mwyn cychwyn erlyniad, mae'n rhaid i ni fod yn fodlon ar y canlynol:

- bod yr achos ger ein bron yn bodloni Cod Erlynwyr y Goron, sef y ceir posibilrwydd realistig o gyflawni euogfarn
- ein bod yn sicr mai dyma yw'r cam gorfodi mwyaf priodol i'w gymryd ar sail y dystiolaeth yn yr achos a'i fod er budd y cyhoedd
- ein bod wedi ystyried y goblygiadau a chanlyniadau

Ar gyfer y mwyafrif o sancsiynau a gyflwynir o dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008, mae gofyn am faich profi uwch. Rhaid i ni fod yn fodlon, heb unrhyw amheuaeth resymol, bod trosedd wedi cael ei chyflawni cyn y gallwn gyflwyno sancsiwn.

Yn achos ymgymeriadau gorfodi a dderbyniwyd o dan y Ddeddf honno, mae'n rhaid bod gennym sail resymol i amau bod trosedd wedi cael ei chyflawni cyn y gallwn dderbyn y cynnig.

Byddwn eisiau gallu cadarnhau bod trosedd wedi cael ei chyflawni o hyd rhag ofn y bydd angen cymryd camau gorfodi pellach pan fo troseddwr yn methu â chydymffurfio â'r ymgymeriad.

Ar gyfer cosbau sifil sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd a mercwri, mae angen i ni fod yn fodlon bod achos o fynd yn groes i ofynion wedi digwydd, yn ôl cydbwysedd tebygolrwydd (y 'lefel o brawf' mewn achosion sifil). Mae hyn yn golygu ei bod yn fwy tebygol na pheidio ei fod wedi digwydd.

8.2 Pryd y byddwn yn erlyn cwmni neu unigolyn sydd wedi mynd yn fethdalwr

Mewn achosion pan fo unigolyn neu gwmni'n mynd trwy weithdrefn ansolfedd:

- gallwn gychwyn neu barhau i erlyn o hyd, pan fodlonir y prawf o dan God Erlynwyr y Goron, ond byddai angen i ni gael caniatâd gan y llys neu'r ymarferydd ansolfedd
- ni fyddwn fel arfer yn cyflwyno cosb ariannol pan fo gennym ddisgresiwn, hynny yw, pan nad yw'r gosb yn orfodol
- mae wedi'i eithrio rhag bod yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cyfleoedd Arbed Ynni

O dan yr Ymrwymiad Lleihau Carbon, os yw'r corff sydd wedi mynd yn fethdalwr yn gwmni o fewn grŵp, bydd gweddill aelodau solfent y grŵp hwnnw'n atebol am ei rwymedigaethau.

8.3 Cymryd camau gweithredu yn erbyn y Goron

Ni fydd unrhyw achos pan fo'r Goron wedi mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn golygu bod y Goron yn atebol yn droseddol, ac ni ellir gwneud i'r Goron fod yn destun cosb sifil o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau.

Mae'n bosibl i'r Goron fod yn destun cosb sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd neu fercwri.

Gallwn wneud cais i'r Uchel Lys ar gyfer datganiad bod unrhyw weithred neu esgeulustod ar ran y Goron yn anghyfreithlon. Bydd hyn yn dibynnu ar y canlynol:

- difrifoldeb y digwyddiad neu'r achos o fynd yn groes i ofynion
- p'un a yw'r sawl dan sylw wedi cyfaddef cyfrifoldeb
- ymateb y corff dan sylw

9. Hawliau, cofnodion ac adennill costau

9.1 Pryd y byddwn yn cyhoeddi camau gorfodi

Mae cyhoeddi gwybodaeth am ein gweithgareddau gorfodi yn ein hadroddiad rheoleiddio blynyddol yn codi ymwybyddiaeth o'r angen i gydymffurfio.

Rydym yn cyhoeddi'r canlynol:

- manylion camau gorfodi ar gofrestr gyhoeddus ar gyfer rhai trefniadau, er enghraifft trwyddedu amgylcheddol
- gwybodaeth benodol am gosbau ar gyfer cynlluniau'r newid yn yr hinsawdd
- sancsiwn sifil a gyflwynwyd neu gynnig ymgymeriad gorfodi a dderbyniwyd o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau, oni bai ein bod o'r farn fod hyn yn amhriodol

Mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn ei gwneud yn ofynnol i ni dynnu gwybodaeth gyhoeddus am droseddau a rhybuddiadau ffurfiol ar ôl cyfnod penodol o amser. Bydd y cyfnod amser yn dibynnu ar natur y drosedd neu gosb.

Byddwn yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth diogelu data drwy beidio â chyhoeddi gwybodaeth am unigolyn (yn wahanol i gwmni) oni bai ei bod yn ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Mae'n bosibl y bydd y gofrestr gyhoeddus a gofynion eraill yn diystyru'r eithriad hwn.

Gan ystyried hyn oll, ac eithrio pan ydym o'r farn y gellid niweidio camau gorfodi sy'n mynd rhagddynt, byddwn fel arfer yn cyhoeddi manylion am y canlynol:

- pob euogfarn droseddol
- ymgymeriadau gorfodi
- hysbysiadau sy'n ymwneud â mynd yn groes i ofynion, neu orfodi, heblaw hysbysiadau gwybodaeth a hysbysiadau bwriad

Ni fyddwn yn cyhoeddi manylion am hysbysiadau o dan y cynlluniau canlynol:

- Yr Ymrwymiad Lleihau Carbon – pan ydym ond wedi'i ddefnyddio i alluogi unigolyn i brynu lwfansau mewn dyraniad arbennig
- Cynllun Cyfleoedd Arbed Ynni – pan fo ymchwiliad yn mynd rhagddo, a nes ein bod yn gwybod bod gweithgareddau gweithredwr o fewn cwmpas y cynllun – mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio hysbysiad gorfodi i wirio a yw gweithredwr o fewn cwmpas

Yn achos unrhyw gosb sifil y byddwn yn ei chyflwyno o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau, neu sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd neu fercwri, byddwn fel arfer yn cyhoeddi gwybodaeth am y canlynol:

- enw'r unigolyn y gwnaethom gyflwyno'r gosb neu sancsiwn iddo
- y gofyniad cyfreithiol nas cydymffurfiwyd ag ef
- swm y gosb ariannol

Yn gyffredinol, mewn achosion pan ydym yn dirymu trwydded o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU neu gytundeb newid yn yr hinsawdd fel cam gorfodi, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth gyfwerth am hyn.

Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau achosion troseddol cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl. Bydd y rhain fel arfer yn parhau i fod ar gael am 12 mis.

Mewn achosion sifil, ni fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth nes y bydd canlyniad unrhyw apêl wedi'i benderfynu, neu nes y bydd yr amser ar gyfer gwneud apêl wedi mynd heibio. Pan fyddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon, bydd fel arfer yn parhau i fod ar gael am 12 mis.

Ar ôl 12 mis, mae'n bosibl y byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth am gosbau ar gael yn gyhoeddus o dan reolau data agored y llywodraeth.

Rydym yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg a chyhoedduswyd arall sy'n ymwneud â throseddau a throseddwr sy'n gymesur â'r gosb.

9.2 Sylwadau ac apeliadau

Fel arfer, gellir apelio yn erbyn camau gorfodi (cyflwyno sancsiwn yn benodol), naill ai drwy broses y llys troseddol neu o ganlyniad i ddarpariaethau apelio penodol.

Mae ein hysbysiadau'n amlinellu'r hawliau apelio sy'n berthnasol i amgylchiadau penodol pob sancsiwn neu ddarpariaeth.

Wrth ystyried cyflwyno unrhyw fath o apêl yn erbyn y cam gorfodi a chosbi, bydd fel arfer yn briodol i'r derbynnydd geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

Ni ellir cyflwyno sancsiynau o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau yn yr amgylchiadau canlynol:

- pan na phennir bod sancsiwn ar gael ar gyfer y drosedd honno o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau
- pan nad yw'r sancsiwn penodol hwnnw o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau ar gael ar gyfer y drosedd honno
- pan nad oes trosedd wedi'i chyflawni
- pan nad yw'n bosibl profi'r drosedd heb unrhyw amheuaeth resymol neu pan fo sylwadau'n awgrymu bod amddiffyniad ar gael

Mae cyfeiriadau at droseddau penodedig yn golygu'r rheiny sydd wedi'u pennu o dan Orchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010, a Rheoliadau Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010.

Pan ellir cyflwyno sancsiwn o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau, bydd ein hysbysiadau'n amlinellu'r hawliau apelio. Mae'r rhain yn amrywio'n fawr. Mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi cyhoeddi ffurflenni ac arweiniad mewn perthynas ag apeliodau o'r fath, ac mae'r rhain ar gael o'i wefan (<https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about.cy>).

Yn gyffredinol, mae seiliau apeliodau yn erbyn cyflwyno sancsiwn o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau fel a ganlyn:

- bod y penderfyniad yn seiliedig ar ffaith wallus
- bod y penderfyniad yn anghywir yn ôl y gyfraith
- bod y penderfyniad yn afresymol
- bod y swm yn afresymol
- unrhyw reswm arall, neu, yng Nghymru, unrhyw reswm tebyg arall

Amlinellir y rhain yn fanylach yn Atodiad 3 [dolen].

9.3 Hawl dioddefwr i adolygiad

Pan fyddwn wedi cwblhau ymchwiliad i drosedd a'n bod wedi penderfynu peidio ag erlyn y parti cyfrifol, gall dioddefwr a nodir ofyn i ni adolygu'r penderfyniad hwnnw. Byddwn fel arfer yn gwybod pwy yw'r dioddefwyr. Byddwn yn rhoi gwybod i'r dioddefwr am ein penderfyniad i beidio ag erlyn ac yn ei gynghori y gall ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw. Bydd gan y dioddefwr bum niwrnod i'n hysbysu os yw'n dymuno ein bod yn ei adolygu.

9.4 Pryd y gallwn adennill costau

Pan fo'r gyfraith yn caniatáu, byddwn bob amser yn ceisio adennill costau ymchwilio ac achosion gorfodi. Pan ydym wedi mynd i gostau, er enghraifft pan ydym wedi gwneud gwaith adfer, byddwn yn ceisio adennill y costau llawn gan y rheiny sy'n gyfrifol yn unol ag egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'. Amlinellir darpariaethau manwl mewn perthynas â chostau sy'n codi o gyflwyno sancsiynau sifil o dan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau yn Atodiad 1. [dolen]